**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **8 GORFFENNAF 2010** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAI 2010** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2010 hyd at 31 Mai 2010.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2010:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 36 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 11 |
| Archwiliadau Dilyniant | 5 |
| Archwiliadau Ymatebol | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mai 2010, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | Addysg | Disgyblion a chynhwysiad | B | Atodiad 1 |
| Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 2 |
| Ysgol Brynrefail | Addysg | Ysgolion | A | Atodiad 3 |
| Ysgol Hafod Lon | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 4 |
| Ysgol Syr Hugh Owen | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 5 |
| Ysgol Y Gader | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 6 |
| Ysgol Y Moelwyn | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 7 |
| Defnydd Ymgynghorwyr | Corfforaethol | | B | Atodiad 8 |
| Trefniadau Rheolwyr Cyfrif Perfformiad | Corfforaethol | | B | Atodiad 9 |
| Trwyddedau Systemau Cyllid | Cyllid | Ar draws yr adran | A | Atodiad 10 |
| Dychweliadau Treth | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 11 |
| Cywirdeb Taliadau Cyflog | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 12 |
| Grantiau Marwolaeth | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 13 |
| Pensiynau - Trosglwyddiadau i Mewn ac Allan ac Ad-daliadau | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 14 |
| Pensiynwyr Newydd | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 15 |
| Gwaredu cyfarpar y cyn-swyddfeydd arian | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| System Treth Cyngor - Fformiwlau ac Algorithmau | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 17 |
| Treth Di-Annedd - Rhestr Brisio | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 18 |
| Arian Personol Preswylwyr Cartrefi | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 19 |
| Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Cofrestru | C | Atodiad 20 |
| Trefniadau Etholiadau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Cofrestru | B | Atodiad 21 |
| Hyfforddi Aelodau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Democratiaeth | B | Atodiad 22 |
| Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | Gofal Cwsmer | Cynllunio Argyfwng | B | Atodiad 23 |
| Monitro Amddiffynnol | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 24 |
| Rheolaeth Asedau Caledwedd | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 25 |
| Trosglwyddo Data Stoc Tai | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 26 |
| Uned Hawliau Lles | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | B | Atodiad 27 |
| Contractau a Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes | B | Atodiad 28 |
| Taliadau i Gartrefi Preswyl Annibynnol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | B | Atodiad 29 |
| System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol | Plant a Theuluoedd | C | Atodiad 30 |
| Cynnal Tiroedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol | C | Atodiad 31 |
| Diogelwch Asedau a Storfeydd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | B | Atodiad 32 |
| Cytundebau Adran 106 | Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Cynllunio | B | Atodiad 33 |
| Addasiadau Lles: Monitro, Rheolaeth a Gorfodaeth | Tai | Tai Sector Breifat | B | Atodiad 34 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd (Cynllun 3 blynedd) | Tai | Tai Sector Breifat | B | Atodiad 35 |
| Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Adeiladau ac Amgylcheddol | B | Atodiad 36 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (*Addysg*)
- Fframwaith Lywodraethu Gorfforaethol (*Corfforaethol*)
- Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle (*Corfforaethol*)
- Profion CAATs ar y System Cyflogau (*Cyllid*)
- Tendr Bancio (*Cyllid*)
- Plant - Basdata Gweithwyr Asiantaeth (*Gwasanaethau Cymdeithasol*)
- Prosiect RAISE (*Gwasanaethau Cymdeithasol*)
- Trefniadau Cyllidebu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Trefniadau Trosglwyddo'r Stoc Dai - Stociau a Storfeydd (*Tai*)
- Cymunedau o Angen - gwyriadau ac ymyrraeth *(Economi a Chymuned)*
- Contractau Peirianneg - Sgorio PQQ *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc | Darparu a Hamdden | Arlwyo | **Derbyniol** |
| Taliadau Ysgolion Uwchradd | Addysg | Ysgolion | **Derbyniol** |
| Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa | Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | **Derbyniol** |
| Siwrne Saff | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | **Derbyniol** |
| Cynllunio (Gorfodaeth) | Rheoleiddio | Cynllunio | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2010**

Cefn Rodyn, Dolgellau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2010**

Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig
Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol
Rheolaeth Cyfluniad
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon
Canolfan Hamdden Penllyn
Canolfan Denis Arfon
Cynnal Tiroedd

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2010**

Trefniadau Recriwtio Ysgolion Cynradd
Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd
System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2011**

Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Mehefin 2010.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr *(Addysg)*
- Ysgol Pendalar *(Addysg)*
- Archwiliadau Iechyd a diogelwch *(Adnoddau Dynol)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Corfforaethol)*
- Bryn Afon *(Darparu a Hamdden)*
- Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo (Rhan 2) *(Gofal Cwsmer)*
- Partymau Gwariant Gwasanaethau Anabledd Dysgu *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Gwarchod y Cyhoedd - Defnydd Flare; Rheoli Gwaith *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Ysgol Botwnnog *(Addysg)*
- Ysgol Eifionydd *(Addysg)*
- Trefn Archebu Gwestai *(Adnoddau Dynol)*
- Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol *(Corfforaethol)*
- Defnydd Ynni *(Corfforaethol)*
- Prydlondeb Talu Anfonebau *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch *(Corfforaethol)*
- Paratoadau ar gyfer IFRS *(Cyllid)*
- Trefniadau derbyn arian *(Cyllid)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Cytundebau Escrow *(Gofal Cwsmer)*
- Rheolaeth Dyfeisiadau *(Gofal Cwsmer)*
- Cyllid Cleientau ac "Appointeeships" *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - Cefn Rodyn, Dolgellau *(Darparu a Hamdden)*
- Costau Toiledau Cyhoeddus *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Cyflwr Ffyrdd - Archwiliadau a chwynion y cyhoedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Trwyddedau Tacsis *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Ymgynghoriaeth Gwynedd - Dethol Contractwyr *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2010 i 31 Mai 2010, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# INTEGREIDDIO
## Addysg

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu y gwasanaeth integreiddio plant o fewn ysgolion prif ffrwd.

Yn ystod yr archwiliad adolygwyd y trefniadau sydd yn eu lle i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcanion rheolaethol canlynol:

- Fod asesiadau ac adolygiadau priodol yn cael eu cwblhau.
- Ei fod yn bosibl i'r rhieni/gwarcheidwad ddewis ysgol.
- Fod y plentyn yn derbyn y gofal priodol.
- Fod rheolaeth gyllidebol ddigonol yn bodoli.
- Fod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau.
- Fod costau cyflogau yn gywir.
- Fod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant priodol.
- Fod gwiriadau Heddlu (CRB) ar weithwyr.
- Fod trefn briodol o ddelio gyda chwynion.
- Fod trefniadau priodol ar gyfer derbyn incwm.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwiriwyd nifer o ffeiliau yn y Cydbwyllgor AAA am asesiad statudol ac asesiadau 3* fel bod adolygiadau priodol yn cael eu cwblhau ar bob plentyn ac yna eu bod yn derbyn y gofal priodol.

Gwiriwyd trefniadau datganoli'r gyllideb i'r holl ysgol uwchradd a'r 13 ysgol gynradd fwyaf ynghyd a threfniadau archebu nwyddau'r gwasanaeth a chyflogi swyddogion.

Nid yw'r archwiliad yn adolygu'r trefniadau cyllidebu a gorwariant a fu'n destun archwiliad arbennig Hydref 2009.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 30 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 20 o'r meysydd hyn.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Integreiddio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru ffeiliau'r plant gyda thrafodaethau a phenderfyniadau'r Panel Cymedroli sydd wedi eu cynnal ynglŷn â'r plentyn.**

- **Dylid sicrhau bod y trefniadau sydd eisoes wedi eu penderfynu ar gyfer monitro'r cymorth darperir i blant yn unol â'r hyn amlinellwyd yn y Datganiad Statudol neu Asesiad 3* yn cymryd lle.**

## ÔL-DDYLEDION ARIAN CINIO, YSGOLION CYNRADD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaethau mewnol disgwyliedig yn eu lle ar gyfer rheoli ôl-ddyledion arian cinio ysgolion cynradd.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod rheolaeth briodol yn bodoli gan ysgolion cynradd ar gyfer gweinyddu ôl-ddyledion arian cinio.
- Fod gan y Gwasanaethau Incwm drefn adolygu effeithiol ar ôl-ddyledion arian cinio ysgolion cynradd.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau sydd yn deillio o'r archwiliad yw nad oedd clercod cinio ysgolion cynradd Gwynedd yn ymwybodol bod canllawiau yn bodoli ar y drefn o adennill a phrosesu ôl ddyledion arian cinio ac o ganlyniad, mae'r ysgolion wedi dilyn trefniadau eu hunain o gasglu a phrosesu yr ôl-ddyledion. Mae rhai o'r prosesau yn seiliedig ar drefn ffurfiol y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau ôl-ddyledion arian cinio, ysgolion cynradd Gwynedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Rhaid i'r clercod cinio sicrhau mai dim ond plant sydd ar y rhestr swyddogol sy'n derbyn cinio am ddim.**

- **Dylai'r clercod cinio sicrhau bod eu cyfrifiadau dyledion arian cinio yn gywir. Dylai'r Penaethiaid wirio gwaith y clercod cyn arwyddo 'r ffurflen CT182a, neu ddirprwyo'r dasg i swyddog addas er mwyn sicrhau bod unrhyw gamgymeriadau yn cael eu hadnabod.**

- **Dylai'r clercod cinio sicrhau bod cyfanswm y dyledion sydd ar eu cofrestrau cinio PY7 gysoni â'r cyfanswm dyledion sydd ar eu ffurflenni CT182a. Dylai bod y Penaethiaid yn gwirio bod y ffigyrau yn cyd-fynd cyn arwyddo'r ffurflen CT182a.**

- **Dylai clercod cinio ysgolion cynradd Gwynedd weinyddu a phrosesu ôl-ddyledion arian cinio yn unol â chanllawiau 'Incwm Prydau Ysgol' (01/03/2010) yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol.**

- **Wrth ddileu ôl-ddyledion arian cinio llai nag £9, rhaid i'r Pennaeth egluro'r rhesymau tu ôl y dileu ar y ffurflen CT182a.**

# YSGOL BRYNREFAIL
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Brynrefail er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 102 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 101 o'r meysydd hyn. Mae hyn yn ganlyniad rhagorol ac yn dystiolaeth fod trefniadau gweinyddol, llywodraethu a rheoli cryf a chadarn yn eu lle yn Ysgol Brynrefail.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Ysgol Brynrefail gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, mae un argymhelliad yr hoffai'r archwiliwr ei gynnig:**

- **Dylai'r ysgol ystyried cael polisi trwyddedau meddalwedd a dylid sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**

# YSGOL HAFOD LON
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol Hafod Lon er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 69 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 57 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod llawer iawn o'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad archwilio diwethaf dyddiedig Ionawr 2007 heb eu gweithredu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Hafod Lon gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr Uned Contractau a Chyflogau yn nodi'r cyfeireb gwariant cywir ar y daflen 'Amser Cyflogaeth Amrywiol - TR86'.**
- **Dylid sicrhau fod yr adroddiadau cysoni diwedd mis yn cael eu harchwilio'n fanwl er mwyn sicrhau bod unrhyw gam-gyfeirebu yn cael ei adnabod.**
- **Dylai bod trefn yn bodoli lle mae'r Uned Gyllid yn dilyn fyny ar unrhyw holiaduron balansau nad ydynt wedi eu derbyn.**
- **Dylid sicrhau fod maint a defnydd unrhyw arian wrth gefn yn cael ei drafod a'u cymeradwyo gan yr Is-Banel Cyllid/Corff Llywodraethol.**
- **Dylid sicrhau fod y cofrestrau buddiannau yn cael eu diweddaru'n flynyddol.**

# YSGOL SYR HUGH OWEN
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol Ysgol Syr Hugh Owen yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 102 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 86 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw:

- Nad oedd y nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol ar y 22 Medi 2009 yn cytuno gyda'r wybodaeth a gwblheir ar y ffurflen Cynllun Ariannu Ysgolion.
- Gwahaniaethau yn y nifer o weithgareddau rhwng CYBLD Medi 2008 ac Ionawr 2009.
- Nad oes cofnod ysgrifenedig yn manylu ar yr arolygiadau diogelwch sydd yn cael eu gwneud ar gyflwr y bws mini.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Syr Hugh Owen gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Corff llywodraethwyr sicrhau fod y gofrestr o ddiddordebau busnes y llywodraethwyr, y pennaeth ac unrhyw aelod arall o'r staff sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ariannol yn cael ei chwblhau yn flynyddol. Dylai fod yn gyfredol ac yn agored i'w harchwilio gan y llywodraethwyr, y staff, y rhieni a'r AALl.**
- **Dylai'r ysgol sicrhau ei bod yn danfon y gyllideb ddiwygiedig ymlaen i'r Uned Gyllid Addysg erbyn y 1 Tachwedd pob blwyddyn.**
- **Dylai'r ysgol ystyried creu polisi trwyddedau meddalwedd a sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**
- **Dylid sicrhau fod y nifer o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cytuno gyda'r wybodaeth a gwblheir ar y ffurflen Cynllun Ariannu Ysgolion cyn eu hanfon ymlaen i'r Adran Addysg.**
- **Dylid sicrhau wrth ddarparu manylion ar gyfer data CYBLD ym mis Ionawr pob blwyddyn, fod nifer y gweithgareddau yn cysoni gyda nifer y gweithgareddau a nodwyd ar y data CYBLD blaenorol ym mis Medi ac unrhyw weithgareddau ychwanegol rhwng Medi ac Ionawr.**
- **Dylai'r ysgol edrych i mewn i'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn y nifer o weithgareddau rhwng CYBLD Medi 2008 ac Ionawr 2009.**
- **Dylai'r cofnod ysgrifenedig fanylu ar yr arolygiadau diogelwch sydd yn cael eu gwneud ar gyflwr y bws mini a dylai'r person sy'n gyfrifol am gwblhau'r adolygiad ddyddio a llofnodi'r cofnod.**

# YSGOL Y GADER
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol y Gader er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 94 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 86 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod yr ysgol wedi gorwario £20,892 ar eu cyllideb 2008/09 (1.4% o'u cyllideb) a bod cynllun ariannol tair blynedd yn ei le ar gyfer gwneud arbedion i adennill y gorwariant dros y tair blynedd nesaf, er mwyn osgoi diswyddiadau dros dro. Gwelwyd hefyd nad oedd yr ysgol wedi derbyn unrhyw ganllawiau yn ymwneud â rheoli teithio staff.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Y Gader gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau os oes addasiadau yn cael eu gwneud i benawdau cyllidebol bod yr addasiadau yn cael eu gwneud ar y system FMS.**
- **Dylai bod canllawiau yn ymwneud â gyrru ar fusnes y cyngor yn cael eu hanfon allan i bob ysgol.**
- **Dylid codi archeb lle'n bosibl pryd archebir nwyddau neu gwasanaethau ac nid ar ôl derbyn yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau bod y corff llywodraethol yn adolygu ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol yn unol â chanllawiau Estyn Dd1.**
- **Dylai'r ysgol ystyried cael polisi trwyddedau meddalwedd a dylid sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**

# YSGOL Y MOELWYN
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Ysgol y Moelwyn er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 95 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 89 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw nad oedd yr rhestr sydd yn rhestru yr holl meddalwedd sydd ar gyfrifiaduron yr ysgyl yn gyfredol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Y Moelwyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cadw copiau o'r adroddiadau monitro a gynhyrchir ar gyfer y Pennaeth a'r Adrannau ar ffeil fel tystiolaeth.**
- **Dylid sicrhau bod yr ysgol yn stampio pob anfoneb maent yn ei dderbyn gyda stamp dyddiad.**
- **Dylai'r ysgol ystyried cael polisi trwyddedau meddalwedd a dylid sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**
- **Dylid sicrhau bod y rhestr meddalwedd yn cael ei ddiweddaru fel fod yr hyn sydd wedi ei osod ar y cyfrifiaduron yn yr ysgol yn cyd-fynd â'r rhestr meddalwedd.**

# DEFNYDD YMGYNGHORWYR
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau penodi a'r gwerth am arian a dderbynnir drwy benodi ymgynghorwyr. Nid yw'r archwiliad yn adolygu defnydd o weithwyr asiantaeth.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd sampl o 6 cytundeb gydag ymgynghorwyr ar draws y Cyngor, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Trefniadau cyn gytundeb,
- Cynllun busnes,
- Trefn pwrcasu a dyroddi cytundeb,
- Cytundebau gyda'r ymgynghorwyr,
- Awdurdodi taliadau,
- Trefniadau Monitro,
- Trefniadau yn dilyn cwblhau'r gwaith.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yma oedd diffyg cwblhau ffurflenni Achosion Busnes gan reolwyr y prosiectau cyn comisiynu'r gwaith i gwmnïau ymgynghorwyr allanol. Mae'r ffurflenni yma yn gofyn am gyfiawnhad i gaffael cwmni allanol i weithredu'r ymgynghoriaeth yn lle ei gyflawni yn fewnol gydag adnoddau cyfredol y Cyngor. Gwelwyd hefyd, wrth lunio sampl yr archwiliad, bod llawer o gam-godio yng nghyfrifon y Cyngor sy'n golygu nad yw'n bosib gweld beth yw'r gwir gwariant ar ddefnydd ymgynghorwyr a hefyd sy'n amlygu diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r system codau gwariant a hefyd beth yn union yw 'ymgynghoriaeth'.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithdrefnau Defnydd Ymgynghorwyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er mwyn cyfiawnhau defnydd o ymgynghorwyr allanol, dylai bod rheolwyr prosiectau perthnasol yn cwblhau dogfen 'Achos Busnes i Ymgynghorwyr'.**
- **Dylai'r Rheolwyr Cyllid godi ymwybyddiaeth yr holl adrannau am bwysigrwydd codio gwariant i'r côd priodol a'r angen i gynnal lefel uchel o gywirdeb drwy bwysleisio y gall methiant i wneud hynny ystumio cyfrifon y Cyngor. Dylid yn ogystal ystyried cynnal sesiynau / gweithdai gyda grwpiau o weithwyr i'w haddysgu ac i hybu gwelliant parhaus.**
- **Ar ôl penodi ymgynghorwyr, rhaid sicrhau bod y Swyddog sy'n cynrychioli'r Cyngor yn ffurfio, ac arwyddo, cytundeb gyda'r cwmni allanol, sy'n cynnwys telerau fel sy'n berthnasol i'r prosiect gan gynnwys amserlen i'r gwaith a dadansoddiad o'r costau i'r Cyngor.**
- **Rhaid sicrhau gofal priodol ac ymlyniad at y rheolau ariannol perthnasol wrth ardystio anfonebau i'w talu.**
- **Dylid codi ymwybyddiaeth o'r ffurflen 'Achos Busnes i Ymgynghorwyr' yng nghyfarfod Coleg Uwch Reolwyr y Cyngor er mwyn sicrhau bod y ffurflen yn cael ei chwblhau ar gyfer pob gwariant ar ymgynghoriaeth allanol yn y dyfodol.**

# TREFNIADAU RHEOLWYR CYFRIF PERFFORMIAD
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan y Rheolwyr Cyfrif Perfformiad trefniadau priodol yn eu lle er mwyn cynorthwyo'r adrannau i osod targedau, casglu'r data ac yna adrodd ar y dangosyddion perfformiad hynny sydd yn statudol, yn rhan o'r Cynllun Tair Mlynedd a'r dangosyddion a gytunwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yng Nghytundeb Gwella'r Cyngor. Yn ogystal â sicrhau bod trefniadau yn eu lle er mwyn adnabod llithriad yn erbyn y targedau, fel bod modd rhoi sylw priodol iddynt.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau'r rheolwyr cyfrif perfformiad o herio'r drefn o osod y targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad, herio'r drefn o gasglu'r data ynghyd â threfniadau monitro cynnydd yn erbyn y targedau.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 21 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 3 o'r meysydd, a rheolaethau mewnol boddhaol mewn 15 o'r meysydd.

Bu oediad cyn cyflwyno cynlluniau busnes yr adrannau ar gyfer 2009/10 ac o ganlyniad ni chafodd y Reolwyr Cyfrif Perfformiad y cyfle priodol i herio targedau'r dangosyddion. Y gobaith yw bydd y cynlluniau busnes yn cael eu cyflwyno ym mis Chwefror 2010, ac felly bydd y rheolwyr cyfrif perfformiad mewn gwell sefyllfa i herio targedau'r adrannau.

Gwelwyd 5 achos ble nad oedd dangosyddion sydd yn rhan o'r Cynllun Tair Blynedd wedi eu cofnodi ar yr un system rheoli perfformiad. Eglurodd y rheolwyr cyfrif perfformiad mai'r rheswm dros hynny yw nad oedd yr adrannau wedi cynnwys y dangosyddion yn eu cynlluniau busnes ar gyfer 2009/10. Dylid sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer 2010/11 i wirio fod y dangosyddion hynny sydd yn y Cynllun Tair Blynedd wedi eu cynnwys yng nghynllun busnes yr adrannau ac felly'n cael eu monitro yn briodol.

Gwelwyd fod y rheolwyr cyfrif perfformiad wedi rhoi trefniadau mewn lle i gynnal archwiliadau ar y dangosyddion, gan ganolbwyntio ar y dangosyddion sydd yn rhan o'r Cynllun Tair Blynedd yn gyntaf. Fodd bynnag byddai creu rhestr wirio bwrpasol ar gyfer yr archwiliad yn sicrhau cysondeb gyda threfniadau archwilio dangosyddion yr Adran Strategol a Gwella.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Rheolwyr Cyfrif Perfformiad gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid creu rhestr wirio bwrpasol ar gyfer cynnal archwiliadau ar ddangosyddion perfformiad, er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn o gynnal yr archwiliadau.**

# TRWYDDEDAU SYSTEMAU CYLLID
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod darpariaeth priodol mewn lle i ymateb i ddigwyddiadau fyddai yn amharu ar weithrediad systemau cyllid hanfodol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y trefniadau cefnogaeth ar gyfer y systemau cyllid a ddynodwyd i fod yn cael y trawiad mwyaf petai amhariad ar eu gweithrediad am unrhyw gyfnod o amser.
Y prif systemau yr adolygwyd oedd:

- Y system cyfrifo – sydd yn prosesu a chreu taliadau i gwsmeriaid, ymysg pethau eraill.
- Y system refeniw – sydd yn prosesu taliadau i'r unigolion sydd yn derbyn budd-dal tai, ymysg pethau eraill.
- Y system cyflogau a pensiynau – sydd yn prosesu a chreu taliadau i holl staff y Cyngor, y cwmni mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiantaeth cyflog ar ei gyfer, a'r holl bensiynwyr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd.
- Y system BACS – sydd yn hanfodol i weithredu a chyflawni pob taliad sydd yn cael ei wneud yn y modd yma.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod cytundebau blynyddol mewn lle rhwng y Cyngor a cyflenwyr y systemau mewn cwestiwn. Gwelwyd fod swyddogion penodol yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau fod y cytundebau yn cael eu cynnal a'u cadw yn weithredol. Yn yr holl achosion, dim ond cyflenwyr y systemau eu hunain sydd yn cael eu hystyried i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi. Mae hyn am resymau teilwng gan eu bod gyda hawlfraint dros y meddalwedd a bod angen sicrhau fod uwchraddiadau a diweddariadau yn cael eu derbyn a'u gweithredu yn amserol a chywir, felly ni fyddai yn ymarferol na chost-effeithiol yn y tymor hir i archebu gwasanaeth gan gwmni gwahanol na i roi ymgais ar gefnogi yn fewnol. Nodwyd fod y swyddogion cyfrifol yn monitro'r gwasanaeth sydd yn cael ei dderbyn gan y cyflenwyr, a mynegwyd nad oedd cwyn mewn perthynas â hynny. Er bod amryw o wasanaethau yn ddibynnol ar weithrediad y system BACS, ond nid unrhyw uned/gwasanaeth gyda pherchnogaeth gyffredinol dros y system. Fodd bynnag, nodwyd fod rheolaethau mewn lle i sicrhau fod trefn cefnogi mewn lle a'i bod yn cael ei adnewyddu fel sydd angen.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn y trefniadau cefnogi mewn lle ar gyfer prif systemau cyllid y Cyngor.**

# DYCHWELIADAU TRETH
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau addas a phriodol yn bodoli dros gwblhau a chyflwyno dychweliadau treth tirlenwi a threth ar werth a sicrhau y chydymffurfir a therfynau amserlen a gofynion Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu trefniadau a gweithdrefnau yr Uned Gyfrifeg a gwirio cofnodion dychweliadau treth tirlenwi a threth ar werth. Ar gyfer treth tirlenwi, gwirio y ffigyrau a gyflenwir i'r Uned Gyfrifeg i'r systemau craidd ac ar gyfer TAW, cadarnhau bod y manylion a dderbynnir o'r amrwyiol ffynonellau megis system Academy wedi eu cofnodi yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod trefniadau addas a phriodol yn bodoli wrth gwblhau a chyflwyno dychweliadau Treth Tirlenwi yn ogystal â Threth Ar Werth, gan gynnwys yr holl elfennau megis rhenti modurdai, y system cyflogau, trafodion yr Hafan a.y.y.b. Ar y llaw arall, arsylwyd fod rhai anfonebau oedd yn hŷn na'r trothwy adhawlio treth fewnbwn o dair blynedd a chwe mis wedi eu dileu, ac felly, ni ddylai'r Cyngor fod wedi adhawlio'r dreth mewnbwn yn ôl gan Chyllid a Thollau EM. Fodd bynnag, nid oedd y symiau hyn yn arwyddocaol a thrafodwyd y mater gydag Ymgynghorydd Treth Cyngor Gwynedd a fynegodd nad oedd pryder yn codi o hyn, ond dylid sicrhau ar gyfer y dyfodol y rhoddir ystyriaeth i ddileu anfonebau ynghynt.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Dychweliadau Treth gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CYWIRDEB TALIADAU CYFLOG
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod swyddogion yn derbyn cyflog cywir, ac yn arbennig fod gweithrediad o'r broses adolygu tâl lleol yn gywir, priodol ac yn unol â'r cytundeb torfol.

Cwmpas yr Archwiliad
Asesu priodoldeb cyflogau sampl o unigolion drwy adolygu eu sefyllfa yn dilyn y broses adolygu tâl.

Prif Ddarganfyddiadau
Archwiliwyd sawl trefniant ar y gweithrediad adolygiad tâl lleol a'r gyntundeb torfol yn cynnwys gweithwyr yn derbyn tâl caledi (detriment pay), taliadau ar gyfer gweithwyr achlysurol a gweithwyr parhaol. Yn ystod y gwaith, derbyniwyd esboniadau a thystiolaeth briodol i gefnogi'r gwaith a gyflawnwyd gan yr Uned Cyflogau a'r Adran Adnoddau Dynol.

Fe ddaeth tri achos i sylw lle nad oedd swyddogion yn cael eu talu yn unol â'r sgôr arfarnu. Deallwyd fod hyn oherwydd nad oedd eu rheolwyr llinell wedi gweithredu ar ganlyniadau ail-arfarnu swydd. Mae'r achosion wedi eu tynnu i sylw'r rheolwyr llinell perthnasol yn ystod gwaith maes yr archwiliad yma, a disgwylir iddynt gael eu datrys yn y tymor byr.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y modd y gweithredwyd ar ganlyniadau'r adolygiad tâl lleol.**

# GRANTIAU MARWOLAETH
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol mewn lle yn y trefniadau cyfrifo a gweinyddu taliadau grant marwolaethau.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd sampl o 10 taliad grant marwolaeth a wnaethpwyd rhwng mis Ebrill 2009 a Rhagfyr 2009, gan wirio:

- Fod y person(au)/sefydliad(au) cywir yn derbyn y taliad grant marwolaeth.
- Fod y cyfrifiadau yn gywir.
- Fod gwybodaeth gyflawn yn cael ei dderbyn.
- Fod data/dogfennau yn cael eu cadw'n ddiogel.
- Fod targedau dangosyddion allweddol yn cael eu cwrdd.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd fod trefniadau effeithlon wedi eu sefydlu ar gyfer prosesu grantiau marwolaeth ond bod problemau wedi bodoli yn y gorffennol gyda meddalwedd Scanfile sydd wedi achosi ôl-groniad i ddogfennau gael eu prosesu ac felly yn creu cryn anhwylustod i swyddogion yr Uned Pensiynau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithlon.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithdrefnau'r Uned Pensiynau ar gyfer talu Grantiau Marwolaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **I gyflawni gwahaniad dyletswyddau llawn dylai'r Swyddog sy'n awdurdodi'r Cyfarwyddyd Talu beidio cymryd rhan arall yn y broses o lunio'r anfoneb, yn cynnwys arwyddo unrhyw beth arall ar y Cyfarwyddyd Talu.**

## PENSIYNAU - TROSGLWYDDIADAU I MEWN AC ALLAN AC AD-DALIADAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau cywirdeb gwerth trosglwyddiadau allan ac i mewn ac ad-daliadau o'r Gronfa Bensiwn am y cyfnod o 1 Ebrill 2009 hyd ddyddiad yr archwiliad a gwneud argymhellion i wella unrhyw wendidau a ddarganfyddir.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o drafodion trosglwyddiadau i mewn ac allan ac ad-daliadau am y cyfnod o 1af Ebrill 2009 hyd at ddyddiad yr archwiliad.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw nad oedd yr Uned Pensiynau wedi cofnodi ar lythyrau addaliadau mai cyfrifoldeb yr uniogolyn oedd hysbysu Cyllid a Thollau E.M. i ddatgan yr incwm llôg a dderbyniwyd ar ad-daliadau hwyr; yn ogystal darganfuwyd bod problemau wedi bodoli yn y gorffennol gyda meddalwedd Scanfile sydd wedi achosi ôl-groniad i ddogfennau gael eu prosesu ac felly yn creu cryn anhwylustod i'r swyddogion yr Uned Pensiynau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithlon.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithdrefnau'r Uned Pensiynau mewn perthynas â throsglwyddiadau i mewn ac allan ac ad-daliadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Pensiynau gysylltu gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth er mwyn sefydlu os oes datrysiad EDRMS (Electronic Document and Records Management System) corfforaethol, mwy effeithiol na Scanfile ar gael. Os ddim, dylid ystyried cynnal asesiad o fanteision ac anfanteision buddsoddi mewn meddalwedd megis 'AXISe Image' yn hytrach na defnyddio Scanfile.**

- **I gyflawni gwahaniad dyletswyddau llawn, ni ddylai'r swyddog sy'n awdurdodi yr anfonebau gymryd rhan yn y broses o lunio anfoneb, yn cynnwys arwyddo unrhyw beth heblaw'r bocs 'Ardystiwyd i'w Dalu' sydd ar y Cyfarwyddyd Talu.**

# PENSIYNWYR NEWYDD
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd gwireddu pensiynwyr newydd am y cyfnod 1 Ebrill 2009 hyd 30 Tachwedd 2009 a sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yn y weithdrefn o'u sefydlu ar y system.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu sampl o bensiynwyr newydd yn cynnwys pensiwn gweddwon, ymddeoliadau buan oherwydd iechyd, ymddeoliadau buan eraill ac ymddeoliadau arferol.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw nad oedd gwahaniad dyletswyddau llawn yn bodoli pan mae'r Uned Pensiynau yn llunio anfoneb TR27B gan fod y Swyddog sy'n ardystio'r anfonebau hefyd yn arwyddo bocs arall o fewn y cyfarwyddyd talu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithdrefnau'r Uned Pensiynau mewn perthynas â Pensiynwyr Newydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **I gyflawni gwahaniad dyletswyddau llawn, ni ddylai'r swyddog sy'n awdurdodi yr anfonebau gymryd rhan yn y broses o lunio anfoneb, yn cynnwys arwyddo unrhyw beth heblaw'r bocs 'Ardystiwyd i'w Dalu' sydd ar y Cyfarwyddyd Talu.**

# GWAREDU CYFARPAR Y CYN-SWYDDFEYDD ARIAN
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol wedi cael eu sefydlu ar gyfer gwaredu cyfarpar y cyn-swyddfeydd arian.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu beth yw sefyllfa gyfredol y swyddfeydd arian. Holi beth yw'r cyfarpar sydd yn cael ei waredu a sicrhau eu bod wedi gwneud hyn mewn modd priodol. Sicrhau bod yr uned wedi addasu neu derfynu'r trwyddedau ar gyfer systemau a'u bod wedi talu i mewn arian fflôt a chyfrifon imprest.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod camau priodol wedi eu cymryd yn y broses o gau'r swyddfeydd arian mewn perthynas â gwaredu cyfarpar, trwyddedau meddalwedd a chyfrifon fflôt ac imprest y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gwaredu cyfarpar y cyn-swyddfeydd arian gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle.**

# SYSTEM TRETH CYNGOR - FFORMIWLAU AC ALGORITHMAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod paramedrau'r system Treth Cyngor wedi eu mewnbynnu yn gywir, bod fformiwlâu ac algorithmau o fewn y system yn gywir a bod cyfrifiadau biliau Treth Cyngor yn gywir a chyflawn.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio paramedrau'r system Treth Cyngor a gwirio sampl o filiau i sicrhau bod y cyfrifiadau'n gywir. Bydd y sampl yn cynnwys sicrhau bod y cyfrifiad yn gywir o safbwynt:

i. y band priodol,
ii. disgownt megis person sengl,
iii. disgownt anwybyddiadau,
iv. gostyngiad band anabl,
v. ail gartrefi.

Hefyd, bydd profion yn cael eu cynnal i sicrhau bod y rhandaliadau yn cael eu cyfrifo'n gywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod paramedrau'r system Treth Cyngor, y fformiwlâu a'r algorithmau wedi eu mewnbynnu yn gywir i system y Cyngor, ac felly bod cyfrifiadau biliau Treth Cyngor ym mhob plwyf yn y Sir yn gywir a chyflawn, gan gynnwys elfennau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru â'r dreth leol. O'r sampl biliau Treth Cyngor a wiriwyd, gwelwyd fod y disgownt cywir wedi'i ddyfarnu i'r sawl sy'n gymwys, a bod ail gartrefi heb dderbyn disgownt o gwbl.

Gwelwyd bod amryw o adroddiadau yn cael eu cynhyrchu'n amserol sy'n crynhoi sefyllfa ariannol y Treth Cyngor yn cynnwys dadansoddiad o'r gwahanol ddisgowntiau a rhoddir.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn y rheolaethau mewnol mewn lle ar gyfer System Treth Cyngor - Fformiwlau ac Algorithmau.**

# TRETH DI-ANNEDD - RHESTR BRISIO
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw i sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer cynnal a gweithredu ar addasiadau a newidiadau a wneir i restr brisio trethi annomestig ynghyd â gwerthuso y rheolaethau mewnol a gwneud arygymhellion i gryfhau unrhyw wendiadau a adnabyddir.

Cwmpas yr Archwiliad

Trafod gyda'r Uned Trethi Annomestig ar drefniadau cynnal a diweddaru'r rhestr brisio a gweithrediad ar unrhyw ddatblygiadau cyfredol megis ail-brisio 2010. Archwilio sampl o eiddo a gwiro y manylion gyda'r Swyddfa Brisio, gwirio sampl o eiddo newydd, dileadau, addasiadau ac eiddo cymysg. Adolygu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer cofnodi y data a sicrhau eu bod yn briodol ac yn ddiogel yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiad yw bod gan y gwasanaeth drefn briodol ar gyfer cynnal a gweinyddu'r Rhestr Brisio trethi annomestig. Fodd bynnag, darganfuwyd bod angen diweddaru'r wybodaeth yn y llawlyfr i sicrhau fod y manylion yn gyfredol ac yn gyson gyda'r wybodaeth o fan eraill (e.e. y We). Yn ychwanegol, awgrymir ychwanegu i'r llawlyfr drefniadau'r cyngor ynglŷn â hyfforddi/datblygu staff a gweithrediad mewn perthynas â hysbysiadau cwblhau fel arweinyddiaeth bellach i'w staff. Gwelwyd bod yr Uned yn gweithredu ar unwaith ar atodlenni'r Swyddfa Brisio ar ôl eu derbyn, fodd bynnag, os na dderbynnir yr atodlenni gan y Swyddfa Brisio o fewn amser rhesymol, yna dylid sicrhau bod y ceisiadau a gyflwynir gan yr Uned i'r Swyddfa Brisio yn cael eu dilyn i fyny. Yn ychwanegol, ymddengys bod nifer o swyddogion gyda statws mynediad 'defult' i'r sytem a gall hyn arwain at fynediad anawdurdodedig.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Treth Di-Annedd - Rhestr Brisio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r llawlyfr pan yn anghenrheidiol.**
- **Dylid sicrhau bod pob ddefnyddiwr sydd wedi cael ei nodi fel 'defult' ar y system treth di-annedd yn cael ei newid i 'revoked' neu dylid sefydlu cyfrinair ar eu cyfer.**

# ARIAN PERSONOL PRESWYLWYR CARTREFI
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer diogelu arian personol preswylwyr yng Nghartrefi'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Sicrhau fod cyfarwyddyd priodol wedi ei roi i Swyddogion ac archwilio'r trefniadau gwirioneddol mewn cyfran o Gartrefi'r Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion ar 12 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn dodoli mewn 5 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Arian Personol Preswylwyr Cartrefi gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Awgrymir i'r adran greu canllawiau sydd yn amlinellu gofynion a rheolaethau mewnol sydd ei angen i staff weithredu arnynt wrth ymdrin ag arian personol preswylwyr cartrefi.**
- **Dylid sicrhau bod y polisi ar arian personol preswylwyr yn cael ei adolygu yn rheolaidd e.e. yn flynyddol, neu bob 2 flynedd er mwyn sicrhau ei fod yn ateb anghenion cyfoes.**
- **Pan yn adolygu'r polisi/canllawiau yn reolaidd dylid sicrhau eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y pwyllgor/swyddogion mwyaf addas.**
- **Dylid sicrhau bod gweddill arian y preswylwyr yn gywir ar bob achlysur.**
- **Mae angen sicrhau bod mynediad i arian personol preswylwyr wedi ei gyfyngu i swyddogion penodedig yn unig.**

# TREFNIADAU COFRESTRU GENEDIGAETHAU, PRIODASAU A MARWOLAETHAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu trefniadau'r Gwasanaeth Cofrestru mewn perthynas â chwblhau adroddiadau chwarterol, y broses o gysoni incwm, trefniadau'r Ganolfan Gyswllt mewn perthynas â derbyn a chofnodi taliadau cardiau debyd a wneir dros y ffôn yn ogystal â sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer mudo i system Siebel yn Ebrill 2010 trwy wirio bod rheolaethau mewnol digonol mewn lle, adnabod unrhyw wendidau a gwneud argymellion i'w cryfhau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r adroddiadau chwarterol a baratoir gan y dair brif swyddfa gofrestru sef Bangor, Pwllheli a Dolgellau ynghyd ag adroddiadau incwm y Ganolfan Gyswllt a gwirio bod yr incwm yn cael ei gysoni yn rheolaidd a chywir ac yn ymddangos yn gywir yn y cyfriflyfr ariannol. Ymholi ar ddatblygiadau system Siebel mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cofrestru a sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle i brofi'r trefniadau newydd. Ni fydd yr archwiliad yn cynnwys gwiriadau ar y llyfrau arian oherwydd na fyddant mewn defnydd yn dilyn cyflwyno'r drefn newydd.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw nad oedd trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer paratoi a chyflwyno adroddiadau chwarterol. Ar adeg yr archwiliad, cyfrifon chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2009/10 oedd wedi eu cysoni. Golyga hyn bod incwm yn sefyll yn y cyfrif dros dro a all arwain at broblemau wrth gau'r cyfrifon. Mae'r Gwasanaeth yn y broses, ar y cyd gyda Technoleg Gwybodaeth, o ddatblygu system Siebel ar gyfer cofnodi'r holl drafodion. Fodd bynnag, cyn ellir symud i system Siebel, dylid datrys y problemau sydd eisoes yn bodoli a sicrhau bod cysoniadau yn cael eu cynnal ar ddiwedd pob chwarter.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid bancio incwm unwaith y rhagwelir bod swm yr incwm yn cronni i leihau'r risg o fancio symiau uchel ac i gydymffurfio â gofynion Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflenni chwarterol yn cael eu hanfon at sylw'r Uwch Dechnegydd yn brydlon. Dylai bod unrhyw achos lle na dderbynnir ffurflenni chwarterol yn cael ei adrodd i'r Rheolwr Cofrestru neu, os yn berthnasol, i'r Uned Archwilio er mwyn sicrhau bod y broblem yn cael ei datrys fel bod modd gweithredu ar gysoniadau yn brydlon.**
- **Dylid cynnal trafodiaethau pellach gyda'r Uwch Dechnegydd i geisio datrys y problemau sydd yn bodoli gyda'r cysoniadau chwaterol a dylid sicrhau bod y problemau wedi eu datrys cyn ymfudo i system Siebel.**
- **Dylid sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i dderbyn yr adroddiadau chwaterol ac ymgymryd â'r gwaith o gysoni i sicrhau bod y cyfrif dros dro yn cael ei glirio cyn cyfnod paratoi'r cyfrifon.**
- **Dylid sicrhau bod swyddogion cofrestru yn cael eu hail hyfforddi pan ddaw datblygiadau i'r system Siebel yn weithredol.**

# TREFNIADAU ETHOLIADAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Gwasanaeth Etholiadol yn gweithredu i sicrhau diogelwch pledleisiadau post a dogfennau etholiadol yn ogystal â sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cynnal etholiad.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer cynllunio am etholiad, trefniadau ar gyfer sicrhau diogelwch pledleisiau post a dogfennau eraill.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod gan y Gwasanaeth Cofrestru drefniadau priodol ar gyfer diogelu pleidleisiau post. Gwelwyd bod trefniadau mewn lle ar gyfer cynnal etholiad a bod ganddynt gynllun priodol wedi ei sefydlu. Fodd bynnag, gwelwyd bod gwendid ymddangosiadol mewn trefniadau diogelu trosglwyddiadau blychau (ballot boxes) a'r nwyddau o'r ganolfan gasglu i'r ganolfan gyfrif. Yn ogystal, cadarnhawyd nad oedd gorsafoedd wrth gefn petai digwyddiad argyfwng. Fodd bynnag, deallir nad yw'n ymarferol i ddarparu gorsafoedd wrth gefn ar gyfer y 142 o orsafoedd pleidleisio presennol sydd mewn lle.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Etholiadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried caniatau i arsylwr, plaid wleidyddol neu gynrychiolydd ymgeisydd gyd-deithio gyda'r blychau pan fyddant yn cael eu trosglwyddo o'r ganolfan gasglu i'r ganolfan gyfrif, ond yn sicr dylai bod o leiaf ddau swyddog yn cyd-deithio gyda'r blychau i leihau risg o dwyll ac ymyrraeth.**

# HYFFORDDI AELODAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Gwasanaeth Democrataidd a Chyfreithlon ynghyd â'r uned Hyfforddi wedi sefydlu trefn briodol ar gyfer anghenion hyfforddi a datblygiad aelodau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r drefn datblygu a hyfforddi aelodau i sicrhau eu bod yn gweithredu gwasanaeth o safon briodol, yn ateb i anghenion yr aelodau ac yn unol â'r Strategaeth Datblygu a Hyfforddi Aelodau a gymeradwywyd gan y Cyngor ym Mai 2009.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd nad oedd aelodau yn dilyn y trefniadau sydd wedi cael ei sefydlu gan yr Uned Hyfforddi yn briodol. Ymddengys bod nifer o aelodau wedi mynychu hyfforddiant heb wneud cais ac eraill wedi methu mynychu hyfforddiant heb roi rhybudd. Gwelwyd bod dau fath o gofnodion yn cael eu gadw, nid yw hyn yn ddelfrydol oherwydd golyga bod dyblygu gwaith a hefyd nid yw'r data yn gyson ar y ddwy system. Yn ogystal, nid yw'r archwiliwr o'i farn fod y dull o fesur ansawdd yr hyfforddiant yn derbyn y sylw priodol. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod camau breision wedi eu cymryd dros y flwyddyn diwethaf i wyrdroi'r drefn hyfforddi aelodau ac mae'r gyfundrefn yn parhau i ddatblygu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Hyfforddi Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ychwanegu cymal yn y cytundeb hyfforddi ar gyfer cyrsiau hyfforddi unigol yn hysbysebu rhyw fath o gosb os methwyd hyfforddiant heb reswm boddhaol.**
- **Dylid ystyried medru mewngofnodi'r math o wybodaeth sydd yn cael ei gofnodi ar y taenlenni (h.y. nifer oriau hyfforddiant, derbyn ymateb, cais i fynychu ac wedi mynychu) a'r Bas-data Hyffoddi fel bod ond un cofnod cyflawn o hyfforddiant aelodau sy'n cael ei gadw.**
- **Dylai bod copi o'r rhaglen hyfforddi ddiweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor.**
- **Dylid creu cynllun newydd ar gyfer mesur ansawdd hyfforddiant i sicrhau bod pob agwedd o'r hyfforddiant yn cael ei ystyried i fabwysiadu newidiadau pan yn briodol.**

# CYNLLUNIO ARGYFWNG A PHARHAD BUSNES
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng y Cyngor wedi sefydlu cynllun argyfwng priodol sy'n cwrdd â gofynion y Deddf Argyfyngau Sifil 2004.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu polisiau a gweithdrefnau Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng y Cyngor ar gyfer gweithredu mewn argyfwng trwy sicrhau fod yr argymhellion a wnaethpwyd mewn adroddiad archwiliad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006 wedi eu gweithredu.

Prif Ddarganfyddiadau

Ers yr archwiliad gwreiddiol a gynhaliwyd yn 2006, mae trefniadau Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes y Cyngor wedi datblygu'n eithaf sylweddol. Mae'r Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn derbyn sylw gan Bennaeth Gofal Cwsmer ac mae'r Adrannau/Gwasanaethau wedi paratoi Cynlluniau Parhad Busnes sydd yn y broses o gael eu gwerthuso gan swyddogion Cynllunio Argyfwng. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y trefniadau mewn argyfwng wedi eu cyfathrebu i aelodau nac i holl Benaethiaid ac Uwch Reolwyr y Cyngor. Yn y Cynllun Ymateb i Argyfwng Mawr mae trefniadau mewn argyfwng wedi eu dogfennu'n fanwl gyda chyfrifoldebau wedi eu manylu, serch hynny, wrth adolygu'r cofnodion hyfforddi darganfuwyd nad oedd yr holl swyddogion a fuasai yn gweithredu mewn achos o argyfwng wedi eu hyfforddi yn y trefniadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid trefnu cyflwyniad ar Barhâd Gwasanaeth/Cynllunio Argyfwng i aelodau'r Cyngor a dylid sicrhau bod Aelod yn cael ei ddynodi gyda chyfirfoldeb am wydnwch.**
- **Dylid ystyried sefydlu rhaglen hyfforddi ar gyfer prif gyflenwyr a chontractwyr y Cyngor fel eu bod yn ymwybodol o beth yw anghenion a trefniadau'r Cyngor petai achos o argyfwng.**
- **Dylid cynnwys cyfrifoldebau a swyddogaethau y sector wirfoddol yng Nghynllun Argyfwng Mawr y Cyngor a dylid ystyired paratoi rhestr wirio neu ganllawiau cryno ar gyfer gwirfoddolwyr.**
- **Dylai'r Swyddogion Cynllunio Argyfwng sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal cofrestr ar gyfer adnabod pobl fregus ac yna gwerthuso'r gofrestr er sichau cyflawnrwydd.**
- **Dylid sicrhau bod modd o gyfathrebu'n effeithiol gyda phobl fregus a dylid cynllunio i sicrhau bod modd cynhyrchu dogfennau hysbysu yn cynnwys lluniau a phrint bras neu ar ffurf Braille.**

# MONITRO AMDDIFFYNNOL
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw i adolygu'r trefniadau mewn lle ar gyfer monitro amddiffynnol gan fesur yn erbyn gofynion y safonau perthynol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd y pecyn monitro amddiffynnol sydd wedi ei archebu gan y Cyngor a derbyniwyd cyflwyniad gan hyfforddwyr cysylltiedig am ffwythiannau amrywiol y pecyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae monitro amddiffynnol yn un o'r meysydd yn y safonau Code of Connection (CoCo) sydd wedi eu hesgoli yn y fersiwn ddiweddaraf o "dylid cydymffurfio" i "rhaid cydymffurfio". Fe all hyn fod yn arwydd y bydd y maes hwn yn derbyn sylw ychwanegol gan aseswyr Government Connect yn ystod adolygiad 2010, a bydd angen cymryd camau penodol i baratoi ar gyfer hyn. Bydd angen profi cynnydd ers adolygiad 2009.

Gwelwyd fod Cyngor Gwynedd wedi pwrcasu pecyn monitro amddiffynnol cydnabyddedig sydd wedi ei ddylunio i gynorthwyo cydymffurfiaeth gyda safonau CoCo a chardiau talu (PCI DSS). Ar adeg yr archwiliad yma, gwelwyd fod y pecyn wedi ei osod, ond heb ei weithredu. Teimlai'r archwilwyr fod angen gweithredu agweddau penodol er mwyn cyrraedd y gofynion.

Prif bwrpasau monitro amddiffynnol yw adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau penodol ac i greu trywydd archwilio, ond gallai hefyd fod yn arf effeithiol fel ataliaeth i unigolion sydd yn ymwybodol o’r drefn logio i weithredu mewn modd gelyniaethus i’r Cyngor. Mae’r Cyngor wedi archebu pecyn sydd yn profi ymwybyddiaeth polisïau, a dylid ystyried ei ddefnyddio i sicrhau fod yr unigolion perthnasol wedi darllen a deall y sawl polisi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi eu cynhyrchu yn ddiweddar, gan gynnwys yr agweddau monitro.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn y rheolaethau mewn lle ar gyfer monitro amddiffynnol gan fod pecyn priodol wedi ei bwrcasu on bod camau penodol angen eu cymryd i gyrraedd gofynion y safonau disgwyliedig.**

# RHEOLAETH ASEDAU CALEDWEDD
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw i sicrhau fod rheolaeth digonol mewn lle ar gyfer asedau TG y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn adolygu trefniadau a chofnodion yr Uned TG ar gyfer holl asedau TG y Cyngor o'r adeg y maent yn cael eu archebu i'r adeg pan y maent yn cael eu gwaredu.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth gyda chofnodion canolog ar gyfer asedau TG y Cyngor. Yn y gorffennol, mae ffactorau penodol fel dulliau amrywiol o gofnodi manylion a gallu defnyddwyr i addasu manylion, e.e. enwau'r cyfrifiaduron, wedi creu cronfa ddata sydd ddim yn 100% dibynadwy.

Ychydig cyn adeg yr archwiliad, 'roedd y Gwasanaeth TG wedi mabwysiadu trefn newydd o greu cofnodion drwy defnyddio darllennwr côd bar i gofnodi'r rhif cyfres yn gywir. Mae hyn wedi ei gyplu gyda sefydlu ffurf safonol o enwi cyfrifiaduron a'r diddymiad o allu defnyddwyr i'w haddasu yn rhoi'r Gwasanaeth mewn sefyllfa lle byddai modd datgan sicrwydd yn y cofnodion sydd yn cael eu creu ar hyn o bryd.

Mae'r Gwasanaeth TG yn defnyddio meddalwedd rheoli cyfluniad i gysylltu gyda'r cyfrifiaduron sydd wedi cysylltu gyda'r rhwydwaith corfforaethol er mwyn llwytho meddalwedd a diweddariadau. Pryder mwyaf yr archwilwyr, sydd eisoes wedi ei amlygu yn yr adroddiad Rheolaeth Cyfluniad (cyhoeddwyd Medi 2009), yw nad oes modd cyfrifo am rai o'r cyfrifiaduron sydd heb gysylltu â'r rhwydwaith ers cyfnod sylweddol. Teimlai'r archwilwyr bod angen sefydlu gweithdrefn ffurfiol i adnabod pa gyfrifiaduron sydd ddim wedi cysylltu â'r rhwydwaith ers amser penodol ac i ymchwilio er mwyn datgelu statws y peiriannau hynny. Byddai'n angenrheidiol i ddynodi'r cyfrifoldebau am weithredu ynghyd â'r camau y dylid eu cymryd os nad oes modd rhoi cyfrif am ased.

Mae'r diffygion sydd wedi bod yn y gorffennol yn tanseilio cofnodion o asedau TG y Cyngor, a cydnabyddir y bydd rhaid dod i drefniant i resymu'r data yma cyn y byddai'n ymarferol i weithredu ffurf effeithiol o fonitro'r cyfrifiaduron mewn defnydd. Mae'r argymhellion sydd yn deillio o'r adroddiadau blaenorol yn parhau i sefyll; mae'r barn a ddyroddir yma yn seiliedig ar y prosesau cofnodi sydd wedi eu mabwysiadu yn ddiweddar.

Mae Strategaeth TGCh 2010-2012 gyda chynllun gweithredu cyfundrefn i sicrhau fod pob cyfrifiadur yn cysylltu â'r rhwydwaith o leiaf unwaith pob tri mis.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Asedau Caledwedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu gweithdrefn swyddogol ar gyfer delio gyda cyfrifiaduron sydd heb gysylltu â'r rhwydwaith ers amser sylweddol, sydd yn cynnwys trefn ffurfiol i'w hadnabod ac i gysylltu gyda'i defnyddwyr neu'r rheolwr perthnasol gan ymholi am statws y cyfrifiaduron a rhoi cais iddynt gael eu cysylltu â'r rhwydwaith i dderbyn unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol ac i gywiro'r cofnodion**

# TROSGLWYDDO DATA STOC TAI
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad
Pwrpas yr archwiliad oedd i adolygu prosesau trosglwyddo a phrofi'r data perthnasol o Cyngor Gwynedd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd yr archwiliad yn adolygu'r prosesau ar gyfer trosglwyddo'r data o'r prif System Dai (Academy).

Prif Ddarganfyddiadau
Mae'r archwilwyr wedi gweld fod y prosesau cynllunedig ar gyfer cwblhau'r trosglwyddiad data wedi eu dogfennu. Mae amserlen ar gyfer copïo a phrofi'r data wedi ei sefydlu er mwyn cwrdd â'r amserlen lle bydd y gyfundrefn newydd yn cymryd drosodd y cyfrifoldebau fel landlord. Yn gyffredinol, mae'r archwilwyr yn fodlon y bydd y prosesau sydd wedi eu cymryd hyd at amser yr archwiliad a'r prosesau sydd wedi eu cynlluniau ar ôl hynny yn galluogi'r trosglwyddiad data i fod yn gyflawn ac yn unol â'r amserlenni angenrheidiol. Mae rhai materion bychain yr hoffai'r archwilwyr eu codi. Gellid gosod mwy o sicrwydd yn nghywirdeb y data yn y trosglwyddiad drwy greu manylion megis cyfansymiau stwnsh ("hash totals") o fewn y tablau yn y system wreiddiol a chymharu'r rhain gyda'r cyfansymiau stwnsh a gynhyrchir yn y tablau cyfatebol yn y system newydd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trosglwyddo Data Stoc Tai gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er mwyn darparu lefel uwch o sicrwydd o drosglwyddiad cyflawn a chywir, dylid creu cyfansymiau stwnsh ar dablau sy'n gritigol i'r system, megis paramedrau a prif ddata o'r system Unix wreiddiol, wedi eu cysoni i'r tablau cyfatebol yn system newydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.**

- **Dylid gosod dyddiad penodol ar gyfer dileu cofnodion sy'n berthnasol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd o'r system Unix / Ingres, a dylid dileu'r bas data trosiannol Windows Ingres wrth gefn ar yr un pryd.**

# UNED HAWLIAU LLES
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod cleientiaid yn cyflwyno ceisiadau budd-dal cywir a chyflawn, mai ond ceisiadau dilys sy'n cael eu hariannu, bod ceisiadau yn cydymffurfio gydag amodau a thelerau'r budd-daliadau, bod y budd-daliadau wedi eu cyfrifo yn gywir, bod y budd-daliadau wedi eu cymeradwyo a'u hawdurdodi'n briodol a bod trefniadau monitro mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewis sampl o geisiadau sydd wedi eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09 a blwyddyn ariannol 2009/2010 a gwirio bod y ceisiadau a thaliadau budd-dal yn briodol ac yn unol â'r gofynion perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau gweinyddu'r Gwasanaeth Hawliau Lles. Fodd bynnag, gwelwyd rhai enghreifftiau o weithredu yn groes i ymarfer gorau o safbwynt casglu data perfformiad, hyfforddiant ar ddiogelu data a'r system gofnodi gwybodaeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gweinyddol y Gwasanaeth Hawliau Lles gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid gwella trefniadau casglu gwybodaeth ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth i sicrhau dangosyddion o werth.**
- **Dylid sicrhau bod y ddau swyddog yn mynychu hyfforddiant Diogelu Data yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol.**
- **Dylai'r Uwch Swyddog Hawliau Lles wneud cais i'r Swyddog Technoleg Gwybodaeth i sicrhau bod y system yn gorfodi defnyddiwr i gyflenwi enw defnyddiwr a chyfrinair a bod defnyddiwr yn newid ei gyfrinair ar ôl mewngofnodi am y tro cyntaf. Dylid hefyd sicrhau y dilynir canllawiau ymarfer da o safbwynt hyd gyfrinair a'r cyfnodau priodol ar gyfer eu newid.**

# CONTRACTAU A GWARIANT GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio gyda'r safonau, rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol, bod gweithdrefnau priodol yn bodoli ar gyfer comisiynu a chontractio gwaith a bod y gwariant yn briodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio gweithdrefnau'r Adran mewn perthynas â chomisiynu a chontractio gwaith a chadarnhau bod y gweithdrefnau a sefydlwyd yn seiliedig ar safonau, rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol. Dewis sampl o gontractau a gwirio bod y camau cywir wedi eu dilyn a bod gwariant yn briodol. Mae'r archwiliad hwn wedi ei gynllunio fel rhan o waith dilyniant Adolygiad ar y Cyd.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau rheolaethol a gweinyddol comisiynu a chontractio, Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o weithredu yn groes i weithdrefnau'r Cyngor. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Contractau a Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai bod cofnod ar ffeil o'r broses o brynu gwasanaeth darparwr.**
- **Dylai bod cofnod ar ffeil o'r dull o ddewis darparwr gwasanaeth a'r rhesymeg dros ei ddewis.**
- **Dylid sicrhau bod cofnod mewn lle sy'n cadarnhau hawliau llofnodi'r comisiynwyr gwasanaeth yn glir.**
- **Dylid sicrhau fod ffeiliau'r cytundebau, naill ai yn cael eu cadw mewn cabinetau dan glo neu mewn ystafell sydd yn gyfyngedig i swyddogion cyfrifol yn unig.**
- **Dylid sicrhau bod y pedwar swyddog yn mynychu hyfforddiant Diogelu Data yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol.**

# TALIADAU I GARTREFI PRESWYL ANNIBYNNOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod y taliadau i gartrefi preswyl annibynnol yn gywir a phriodol ac yn unol â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau mewnol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r cyfarwyddiadau a roddir i swyddogion ar gyfer gosod ffioedd a chadarnhau eu bod yn cael eu dilyn. Dewis sampl o daliadau i gartrefi preswyl annibynnol o flwyddyn ariannol 2009/10 a chadarnhau bod y ffioedd wedi cael eu cytuno a'u hawdurdodi yn briodol a bod cofnodion y Cyfriflyfr Ariannol yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau talu ffioedd Cartrefi Preswyl Annibynnol. Fodd bynnag, gwelwyd rhai enghreifftiau o weithredu yn groes i ymarfer gorau o safbwynt cytundebau'r cartrefi.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Taliadau i Gartrefi Preswyl Annibynnol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu ffeiliau cytundebau Cartrefi Preswyl a Nyrsio annibynnol i sicrhau fod y ffioedd cywir a mwyaf diweddar yn cael eu hatodi i'r cytundebau.**
- **Dylid sicrhau yn y dyfodol fod perchnogion y cartrefi yn arwyddo'r atodiad i gadarnhau eu bod yn derbyn y ffioedd.**

# SYSTEM CYNLLUNIO DYFODOL PLANT A PHOBL IFANC MEWN GOFAL

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod y targed o 100% o blant gyda chynllun llwybr bywyd yn cael ei gyrraedd yn y flwyddyn 2009/2010.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio ffeiliau plant mewn gofal sydd wedi cael eu pen blwydd yn 16 oed a sicrhau fod cynllun llwybr bywyd ar eu cyfer.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd yn yr archwiliad yma fod y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd gyda Chynllun Llwybr Bywyd ar eu cyfer a bod cynlluniau ar y gweill i ddechrau gweithio ar Gynllun i'r rhai oedd heb. Fodd bynnag, gwelwyd mai ond mewn un o'r achosion yma 'roedd y rhan gyntaf o'r Cynllun wedi ei gwblhau o fewn yr amser a roddir yng nghanllawiau'r Cynulliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod Rhan 1 o'r Cynllun Llwybr Bywyd yn cael ei gwblhau yn unol â chanllawiau'r Cynulliad, sef o fewn tri mis i'r person ifanc ddod yn gymwys neu'n berthnasol.**

# CYNNAL TIROEDD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewn lle gogyfer gweinyddu gwasanaeth cynnal tiroedd yng Ngwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu adolygiad o reolaeth a gweinyddiaeth y trefniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd, gan gynnwys sicrhau bod cytundebau mewn lle i reoli'r gwaith yn effeithlon. Yn ogystal, sicrhau bod system prosesu taflenni amser y gweithwyr yn gadarn.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

- Nad oedd gan Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ddangosydd perfformiad corfforaethol ar gyfer gwasanaeth Cynnal Tiroedd.
- Diffyg cytundebau lefel gwasanaeth rhwng gwasanaeth Cynnal Tiroedd a'u cleientiaid.
- Diffyg monitro ar y cytundebau er mwyn eu cadw'n gyfredol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cynnal Tiroedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod dangosydd perfformiad ar gyfer gwasanaeth Cynnal Tiroedd yn cael ei greu er mwyn rhoi proffil corfforaethol i'r uned fusnes.**
- **Dylid sicrhau fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn bodoli ar gyfer pob contract mae'r Uned Darparu Bwrdeistrefol yn ei gyflawni.**
- **Dylai'r Rheolwr Cynnal Tiroedd hysbysu'r Uned Gyllid Amgylchedd pan mae unrhyw newid i gytundeb unrhyw sefydliad.**
- **Dylid sicrhau bod pob hyfforddiant mae'r gweithwyr Cynnal Tiroedd yn ei dderbyn yn cael ei gofnodi ar fas data'r Swyddog Gweinyddol.**

# DIOGELWCH ASEDAU A STORFEYDD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod storfeydd yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cael eu gweinyddu a'u gweithredu'n unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol Cyngor Gwynedd a bod y storfeydd yn ddiogel ac wedi eu diogelu rhag mynediad anawdurdodedig, a bod rheolaeth briodol dros nwyddau ac asedau.

Cwmpas yr Archwiliad

Lluniwyd yr adroddiad drwy ymweld â sampl o storfeydd er mwyn ymgymryd â gwiriad ffisegol o'r stoc yn erbyn y rhestr asedau swyddogol. Yn ogystal cynhaliwyd archwiliad er mwyn sicrhau fod y system cofnodi storfeydd "Tranman" yn cael ei gynnal a'i fod yn gyfredol.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd :

- Nifer o eitemau (53% o'r sampl a gymerwyd) yn y storfeydd ddim yn cytuno gyda nifer yr eitemau ar system stoc Tranman.
- Gwendid yn rheolaeth diogelwch storfeydd.
- Diffyg cysondeb wrth yswirio'r stoc.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Diogelwch Asedau a Storfeydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod nifer yr eitemau yn y storfeydd yn cytuno gyda nifer yr eitemau sydd wedi eu cofnodi ar y system stoc Tranman.**

- **Dylid sicrhau fod y stôr–geidwad yn arwyddo'r daflen "Adroddiad Addasu Stoc" er mwyn tystio ei fod yn cytuno gyda'r addasiadau.**

- **Dylai'r daflen stoc sy'n cael ei defnyddio i gyfrif stoc yn barhaol ddangos y nwyddau sydd fod mewn stoc a bod cyfrifoldeb ar y stôr-geidwad i gwblhau'r golofn o nifer mewn stoc.**

- **Os yw'r Uned am ddefnyddio system gwirio stoc barhaol dylid gwneud hynny mewn cyfnodau rhesymol e.e. misol neu chwarterol.**

- **Dylid parhau i fonitro'r 'issue tickets', GRN a'r bin cards yn wythnosol a'u cysoni i system Tranman.**

# CYTUNDEBAU ADRAN 106
## Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu adnoddau cytundeb adran 106 yn effeithiol ac yn unol â'r Polisi cynllunio.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad fydd adolygu sut mae'r Polisi cynllunio yn cael ei weithredu drwy'r ceisiadau cynllunio a weinyddir gan y Cyngor gan sicrhau bod cofnod o bob cytundeb, gyda'i werth, yn cael ei gadw, a bod cyfiawnhad i'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae cyflwyno dogfen Canllaw Cynllunio Atodol ar Ymrwymiadau Cynllunio wedi sicrhau bod strwythur pendant gan Cyngor Gwynedd bellach ar sut i ddelio gydag ymrwymiadau cytundeb adran 106. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y Canllaw nawr yn cael ei roi ar waith a bod y Cyngor yn elwa yn strategol o bosibiliadau ymrwymiadau cynllunio er bod datblygiadau yng Ngwynedd yn fychan tu allan i'r ardaloedd trefol ble nad yw ddichonadwy i ddenu adnoddau sylweddol drwy gytundeb 106. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd bydd angen i'r Adran Rheoleiddio:

- ymgynghori yn drawsadrannol ar geisiadau addas;
- cryfhau'r tryloywder sy'n cyfiawnhau'r rhesymeg i ofyn am ymrwymiadau;
- gwella systemau i fonitro datblygiadau sydd gydag ymrwymiadau 106; a
- sicrhau bod yr angen yn bodoli am yr ymrwymiadau sy'n berthnasol i'r datblygiad, ynghyd â chynlluniau pendant i wario'r cyfraniad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Cytundebau Adran 106 gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen sicrhau bod holl adrannau Cyngor Gwynedd yn gallu ceisio cyfraniad o ymrwymiadau cynllunio. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn ddogfen gychwynnol, ond mae angen trefn ble bod holl adrannau'r Cyngor yn cael gwybod am gynlluniau ble mae posibilrwydd o ddenu adnoddau drwy gytundeb 106, fel bod posibl i Cyngor Gwynedd cael budd ar y datblygiad yn strategol.**

- **Dylid parhau i adolygu cytundebau 106 i sicrhau fod balans derbyniol rhwng polisi cynllunio a dyheuadau'r farchnad.**

- **Dylid sicrhau bod tystiolaeth ddigonol ar ffeil cynllunio er mwyn gallu arddangos tryloywder yn y penderfyniad ynglyn â'r union resymau dros yr ymrwymiad cynllunio.**

# ADDASIADAU LLES: MONITRO, RHEOLAETH A GORFODAETH
## Tai

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod yr ymgeisydd yn cyflwyno ffurflen gais safonol, mai ond ceisiadau dilys sy'n cael eu hariannu, bod ceisiadau yn cydymffurfio gydag amodau'r grant, bod y grant wedi ei gyfrifo yn gywir, bod trefn gwirio ac ardystio cywir a bod y grant yn cael ei dalu, bod y wybodaeth yn gywir yn y Cyfriflyfr Ariannol a bod trefniadau monitro mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewis sampl o geisiadau sydd wedi eu cwblhau yn ystod flwyddyn ariannol 2008/09 a gwirio bod y ceisiadau a thaliadau yn briodol ac yn unol â'r gofynion perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau rheolaethol a gweinyddol addasiadau lles. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o weithredu yn groes i weithdrefnau'r Cyngor. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Addasiadau Lles: Monitro, Rheolaeth a Gorfodaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Rheolwr Tai Sector Breifat wneud cais i'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i sicrhau bod y system yn gorfodi defnyddiwr i gyflenwi enw defnyddiwr a chyfrinair a bod defnyddiwr yn newid ei gyfrinair ar ôl mewngofnodi am y tro cyntaf. Dylid hefyd sicrhau y dilynir canllawiau ymarfer da o safbwynt hyd gyfrinair a'r cyfnodau priodol ar gyfer eu newid.**

- **Dylai'r blwch "Derbyniwyd" ar y T.R.27B gael ei arwyddo gan y swyddog sydd yn gallu cadarnhau bod y gwasanaeth a ddarparwyd wedi cymryd lle; y bylchau gwirio eraill gael eu harwyddo gan swyddog sydd ddim yn arwyddo'r blwch "Derbyniwyd" ac sydd ddim yn ei ardystio; a'r taliad gael ei ardystio gan reolwr y gyllideb.**

# TREFNIADAU DOD AG EIDDO GWAG YN ÔL I DDEFNYDD
## Tai

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod y Strategaeth Tai Gwag yn cael ei gweithredu yn unol â'r cynllun gweithredol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ym mis Hydref 2009.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrych ar amcanion a thargedau'r Strategaeth Tai Gwag a sicrhau eu bod yn y broses o'u cyrraedd a bod rheolaethau mewnol yn bodoli i leihau unrhyw risg wnaiff eu hatal rhag cyflawni'r amcanion yma.

Prif Ddarganfyddiadau

Wrth gynnal yr archwiliad hwn, gwelwyd fod nifer o enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli. Fodd bynnag, gwelwyd hefyd ychydig o enghreifftiau lle nad oedd y pwyntiau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth wedi eu gweithredu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y trefniadau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried creu targed misol neu chwarterol ar gyfer eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd fel y gellid cael mwy o sicrwydd o gyrraedd y targed blynyddol.**

- **Dylid gwneud pob ymdrech i geisio cadw at y tragedau sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredol o fewn Strategaeth Tai Gwag Gwynedd. Pan nad yw hyn yn bosib, neu os oes unrhyw newid yn cael ei wneud i gynnwys y Strategaeth yna dylid hysbysu Bwrdd y Cyngor o hyn ynghyd â'r rhesymau pam.**

- **Dylid ystyried ymarferoldeb a dichonolrwydd creu cysylltiadau gyda'r system GIS gorfforaethol i fapio ble mae'r tai gwag, neu edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio system CAPS i wneud hyn.**

## GWASANAETHAU ADEILADU - BLAENORIAETHU GWAITH
### Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd sicrhau fod Adran Ymgynghoriaeth yn cyflawni eu hamcanion o gynnal a chadw adeiladau Cyngor Gwynedd yn effeithiol ac effeithlon.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr adroddiad fydd dilyn dogfennaeth o'r Ddesg Gymorth i'r Cyfriflyfr ac i ffeiliau adeiladau'r Cyngor, gan sicrhau bod rheolaethau mewn lle gogyfer cynnal a chadw adeiladau'r Cyngor. Prif ffocws yr adroddiad fydd archwilio rheolaeth ar gyflawni gwaith ymatebol (cyfrif gwariant 10).

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaethau da yn bodoli o fewn y broses blaenoriaethu gwaith y Gwasanaethau Adeiladu. Fodd bynnag, gwelwyd fod gwendid yn y canlynol:

- Nid yw'r system ddesg gymorth yn cael ei defnyddio i'w llawn potensial.
- Nid oes trefniant yn bodoli i sicrhau fod gwaith wedi ei gwblhau.
- Methiant i wirio cydymffurfiad gyda thermau'r cytundeb lefel gwasanaeth.
- Mae risg i anfonebau gael eu talu heb i'r gwaith gael ei gwblhau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y contractwyr a ddefnyddir gan y Cyngor wedi eu cofrestru â CHAS neu gyfatebol.**
- **Dylid sefydlu trefn i sicrhau bod y Gwasanaeth yn derbyn tystiolaeth i gadarnhau fod contractwyr wedi cwblhau gwaith.**
- **Dylid datblygu trefn benodol i sicrhau fod Archwilwyr Adeiladau yn gwirio sampl o waith ymatebol er mwyn gofalu eu bod wedi eu cwblhau i safon ac ansawdd dderbyniol.**
- **Dylid ceisio sicrhau bydd y modiwl 'Webdesk' yn weithredol yn y dyfodol agos fel y gall clientiaid dracio'u galwadau.**
- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth am eiddo ar y system desg gymorth mor gyflawn â phosib, yn enwedig rhoi "flag" os yw cofrestr asbestos y Cyngor yn nodi fod asbestos yn bresennol mewn adeilad.**
- **Dylid gwneud pob ymdrech i geisio sicrhau fod cyfarwyddiadau ar archebion i gontractwyr yn gyflawn.**